**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG**
**(DRYDEN ROAD, PENARTH)**
**(TRAFFIG UNFFORDD) 2022**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2 a 53 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu de Cymru, yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984 uchod yn bwriadu gwneud gorchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlenni isod.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig a Chynlluniau Rhif T/21/34/MS ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/legal_notices/Legal-Notices.aspx ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF949) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **dydd Gwener 11 Tachwedd 2022** ac mae rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

**ATODLEN 1**

Ni fydd unrhyw berson yn gyrru neu'n gadael i gerbyd deithio ar hyd y darn o ffordd a ddisgrifir isod, heblaw am tua'r dwyrain yna tua'r de'n gyffredinol, ac fel y nodir yn yr eithriadau yn Atodlen 2.

**Dryden Road (Rhan), Penarth**

O bwynt tua 15.5 metr o'r gyffordd â Tennyson Road, tua'r dwyrain a'r de yn gyffredinol, i'r gyffordd â Wordsworth Avenue, am tua 235 metr.

**ATODLEN 2**

**Eithriadau i'r Gorchymyn Unffordd:**

Symud unrhyw rwystrau i draffig.
Cerbydau sy'n cael eu gweithredu gan yr Heddlu, neu'r gwasanaethau Tân neu Ambiwlans.
Cerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithrediadau ysgubo ffyrdd, neu lanhau gylïau.

Dyddiedig 20 Hydref 2022
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai,
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA.